



CAN DDIFRIFOL,

Yn cyffelybu Einioes Dyn i bob peth
DARFODEDIG.

Ail roses ar y man-wydd,
Neu ail i flodau'r coedydd;
Ail i beraidd tysiau Mai,
Ail boreu cyn prydawn-ddydd.

Ail i'r haul eyn maehlud,
Ail i'r cysgod hefyd;
Ail i'r goldyn iraidd g'âs,
Oedd gynt gan Jonas broffwyd.

Felly dyn llawn nychdod,
Pan nyddo'r edau'r bennod:
Ei thynu o hyd, a'i thori'n wan,
Dyn yn y man sy'n darfod.

Fe aeth yr haul i'w fachlud,
A'r cysgod ni thrig enyd;
Crina'r goldyn iraidd dŵ',
A dyn sy'n marw hefyd.

Y rhosyn a ddiffinodd,
A'r blodyn hardd a syrthiodd;

A'r llyisiau wywodd dan y gwŷdd,
A'r boreu-ddydd a basiodd.

Ail glaswellt ar y meusydd,
Neu ddechreu chwedl newydd;
Ail i'r aderyn, hir ni sai,
Neu fân wliith Mai foreu-ddydd.

Ail i fyr feddylio,
Neu ail i hun freuddwydio;
Ail i ddwfr yr afon draw,
Ar droad llaw fo'n treiglo.

Felly dyn yn ddiau,
Dan arwa'n chwyth i'w enau,
Sy' bob munud dan y rhôd
Mewu perygl dyrnod angau.

Yr îr wellt-glas a wywodd,
A'r chwedl a derfynodd;
'R aderyn aeth, nis gwyddis p'le,
A'r gwliith o'i le dyrchafodd.

Fe ddaifur byr feddylio,
Fe aeth y breuddwyd heibio;
Y dwfr sy'n treiglo rhyd y glyn,
Ac einioes dyn sy'n pasio.

Ail clochau ar y croyddwr,
Neu olwg drych y gwydrwr;
Ail 'sgrifen ar y tyfod draw,
Neu'r wenol llaw'r gwehyddwr.

Ail i'r awr rywiegedd,
Neu rychwant rhwng y bysedd;
Ail i dôn yr alarch gwyn,
Pan gano cyn ei ddiwedd.

Felly dyn sy'n darfod,
 Wrth dynu at ben ei ystod ;
 Chwvrn y pasia ei fywyd byr,
 Fel chwedl prysur dafod.

Clochau'r dwfr a dorodd,
 Y golwg ddrych a ballodd ;
 A'r weinol chwidr aeth drwy'r llen,
 A'r 'scrifen a dywyllodd.

Nid hir yr hwy a' ei oriau,
 Byr yw y rhychwant yntau ;
 Marw a wnaeth yr alarch gwyn,
 Ac felly dyn drwy angau.

Ail i'r saeth o'r llinyn,
 Neu fel rhyferthwy gwanwyn ;
 Neu amser byr rhwng llauw a thraï,
 Neu wêt a wnaï'r pryf coppyn.

Ail gyrfa march uchel-hen,
 A bywiog, uchel, grechwen,
 Ail i ynill gâl yr ha',
 Neu ranu bara 'lusen.

Felly dyn heb ragor
 Sy drist ei ddyddiau, a'i wobor ;
 Hedd w'n uchel syth ei war,
 Y foru ar ei elor.

Fe aeth y saeth o'r bwa,
 A'r llanw ar gais a droia,
 A'r amser nid yw amser ddim,
 A'r wef ddi-rym a rwyga.

Fe 'nillwyd gyrfa bennod,
 Fe d'rawyd gâl ar ddyrnod ;

Y bara a raned i bob un,
Ac einioes dyn sy'n darfod.

Ail mellten pan ei saetho,
Neu bôst yn myned heibio ;
Ail i swm, neu osle o gân,
Neu dridiau o fân siwrneio.

Tebyg i erllygen
Neu debyg i'r eirinen ;
Neu eira gwyn hyd llechwedd bron,
Pryd hâf-ddydd hinon wybren.

Felly dyn sy'n treiglo,
Heb oes nac ammod tario ;
Ac yn myned ar ei daith,
Heb mor cyfflybiaeth iddo.

Ni thrig y fellten funud,
A'r post sy'n myn'd yn esgud ;
Chwyrn y pasia swm y gân,
A'r siwrnai fechan hofyd.

Pydru a wna'r erllygen,
A syrthio 'wna'r eirinen ,
A'r eira dawdd, wel dyna ran
Pob peth fydd dan yr wybren.

ROWLAND VAUGHAN, CAER GAI,

A'i cânt yn y flwyddyn 1686.